Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Pontardawe**

**Ysgol Gynradd Pontardawe**
**Rhodfa Alltycham**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 4JX**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Chwarae Pontardawe

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Julie Davies<br>Claire Morgan |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yng Nghylch Chwarae Pontardawe yn teimlo'n ddiogel, yn hapus iawn ac yn teimlo eu bod yn cael gofal. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r oedolion ac â'r plant eraill o'u cwmpas. Mae'r plant yn ymuno'n frwd yn y gweithgareddau a arweinir gan oedolion, ac maent yn gallu mynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain hefyd. Cânt gyfleoedd cytbwys i ddatblygu a dysgu, gan dderbyn canmoliaeth gadarnhaol pan fyddant yn rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn arferion hylendid da yn gyson ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud pe bai pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac yn eu canmol yn gyson. Maent yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn weithgar ac yn cefnogi plant gydag anghenion ychwanegol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn cynnig amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n gadarnhaol i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth effeithiol. Mae ganddynt systemau da ar waith i sicrhau bod y wybodaeth a'r dogfennau gofynnol ar gael a bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Maent wedi meithrin cydberthnasau effeithiol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn. Mae eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi eu hunain a gwybod y bydd eu dewisiadau yn cael eu cefnogi. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau am eu chwarae. Er enghraifft, dewis p'un ai i ymuno mewn gweithgareddau ai peidio, pa ardal i chwarae ynddi a chael amser i orffen eu bwyd.

Mae'r plant yn egnïol iawn ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn dod i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn setlo'n gyflym. Maent yn ymddiddori'n positif yn y gweithgareddau a gynigir. Gwelsom y plant yn cymryd rhan yn gyffrous mewn gweithgareddau ac yn ateb cwestiynau'n frwdfrydig. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, trafododd y plant eu hoff fwyd gyda'r staff a rhannodd un plentyn ddinosor yn frwd, gan wneud synau rhuo wrth basio nhw draw.

Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn ffurfio cydberthnasau gyda'r oedolion a'r plant eraill o'u cwmpas. Maent yn hyderus i fynd at yr aelodau staff am sicrwydd a chymorth. Mae'r amser byrbryd yn gymdeithasol iawn, a gwelsom bron pob plentyn yn chwarae gyda'i gilydd. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag arferion. Roeddent yn gwybod beth i'w wneud drwy gydol eu hamser yn y lleoliad, gan gynnwys tacluso pan oedd y staff yn galw *'amser tacluso'* ac roeddent yn gwybod ble i fynd i olchi eu dwylo. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda iawn. Maent yn cael ymatebion cadarnhaol cyson gan y staff ac yn mwynhau eu cynnwys yn eu chwarae neu ofyn cwestiynau iddynt.

Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran ac yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Gwelsom blentyn yn dangos gofid pan aeth plentyn arall i deimlo'n drist a gwnaeth rhai ganmol y plant eraill am eu hymddygiad da. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyd-chwarae ac yn rhannu teganau ac adnoddau gyda'i gilydd. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Gwelsom fod y plant yn gyffrous am y gweithgareddau a gynigir, gan gynnwys brwsio'u dannedd a chwarae gydag ewyn. Cymerodd y rhan fwyaf o'r plant ran yn eu tasgau a'u chwarae am gyfnod o amser priodol i'w hoedran. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel.

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i sbarduno eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau oherwydd bod cydbwysedd da o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan blant a'r oedolion fel ei gilydd. Maent yn cael gafael ar adnoddau o'r ardaloedd storio ac yn eu defnyddio, gan dynnu pethau allan eu hunain yn hyderus ond hefyd yn eu symud rhwng ardaloedd eraill. Mae'r plant yn cael ystod eang o amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn defnyddio

adnoddau adeiladu o bren i chwarae'r drymiau. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn atgoffa'r plant i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, annog y plant i beidio â dringo ar fyrddau a'u hatgoffa i eistedd i lawr wrth fwyta. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da ar waith. Maent yn dilyn gweithdrefnau da ar gyfer newid cewynnau. Maent yn glanhau ac yn tacluso'n gyson drwy'r dydd. Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a gwnaethant ddweud yn hyderus wrthym yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn ymddwyn fel modelau rôl da bob amser, gan siarad â'r plant gan ddefnyddio llais caredig a thrwy atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymateb yn gyson. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn gwrando'n astud ar y plant ac yn ymateb yn briodol iddynt. Mae'r staff yn gwrando ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud ac yn gofyn cwestiynau dilynol neu'n ymateb gyda *'wow'* neu *'well done'.* Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae bron pob aelod o'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae'r staff yn cynllunio ac yn cynnal ystod o weithgareddau priodol i oedran a datblygiad sy'n datblygu'r plentyn cyfan, gan gynnwys amrywiaeth ddiwylliannol. Caiff datblygiad rhai plant ei olrhain, defnyddir arsylwadau i gefnogi'r plant gydag anghenion ychwanegol a chaiff y camau nesaf yn nysgu'r plant eu cynllunio. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei wneud ar gyfer pob plentyn. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau iddynt gyflwyno cofnod datblygu gyda'r camau nesaf i bob plentyn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, fel plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal. Caiff gwybodaeth am anghenion y plant ei rhannu gyda'r rhieni drwy e-bost. Mae rhai o'r aelodau staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy eu hannog i wisgo'u cotiau neu ffedogau a chanmol y plant pan fyddant yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Maent yn trefnu arferion glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg da ar waith sy'n cael eu dyddio i'w hadolygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn sicrhau y caiff gwiriadau diogelwch rheolaidd ac unrhyw waith cynnal a chadw ei wneud.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd gydag ardal chwarae dan do o safon dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig ardal chwarae awyr agored priodol a ddefnyddir mor aml â phosibl. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'r blychau wedi'u labelu a'u storio ar lefel isel yn gadael i'r plant weld beth sydd ar gael. Gellir gofyn am unrhyw adnoddau ychwanegol sydd allan o gyrraedd y plant a'u darparu iddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall bron pob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae digonedd o adnoddau ar gael. Er enghraifft, chwarae rôl, byd bach, adeiladu a chelf a chrefft. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau awyr agored ar gael i'r plant. Mae'r lleoliad yn cynnig ardaloedd sy'n meithrin datblygiad corfforol, creadigol, dychmygus ac iaith y plant, yn ogystal ag adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal,

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan Gylch Chwarae Pontardawe dîm arwain cryf a threfnus iawn sy'n gweithio'n gadarnhaol i ddatblygu'r lleoliad. Mae ganddo ddatganiad o ddiben clir. Fodd bynnag, ni wnaeth adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn llawn. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi diweddaru eu datganiad o ddiben i adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn glir. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad amrywiaeth eang o bolisïau da a chlir sy'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Maent yn sicrhau y caiff yr holl gofnodion angenrheidiol am y plant eu cadw'n ddiogel. Er enghraifft, contractau'r plant, anghenion unigol a ffurflenni caniatâd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a rheoleiddwyr eraill. Fodd bynnag, nid oeddent wedi hysbysu AGC am ddigwyddiad o bwys na newidiadau i'r staff. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau hysbysiadau am y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthi'n rhoi proses hunanwerthuso ar waith. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff a phartneriaid eraill â diddordeb. Maent yn llunio adroddiad gwerthfawr sy'n adlewyrchu eu lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau da i ddelio â phryderon a rhoi unrhyw newidiadau ar waith, os oes angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda iawn ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant amrywiol. Er enghraifft, cymorth cyntaf, diogelu, yn ogystal â chyrsiau Cymraeg a'r cymhwyster Gwaith Chwarae. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarnu da, rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon ar y lleoliad a'u bod yn gallu siarad â'r rheolwyr i fynegi pryderon, gofyn am gymorth a gwneud awgrymiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o bresenoldeb y plant ac yn sicrhau bod y staff yn cael eu lleoli'n dda i ddiwallu'r cymarebau staffio ac anghenion y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod gweithiwr ychwanegol ar gael yn ystod y clwb ar ôl ysgol ac nid yw'n glir bob amser pwy sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant ym mhob ystafell. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau iddynt gyflwyno system newydd i sicrhau bod yna gofnod clir o bwy sy'n gweithio gyda'r plant ym mhob ystafell o'r lleoliad a hefyd wedi cadarnhau bod rhywun ychwanegol ar gael ar gyfer y clwb ar ôl ysgol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn dda. Maent yn rhoi gwybodaeth i rieni ar y cyfan. Dywedodd y rhieni eu bod yn fwy na bodlon ar y gwasanaeth, maent yn cael gwybodaeth ddyddiol am ddiwrnod eu plentyn ac yn gallu siarad naill ai â'r arweinwyr neu unrhyw aelod o'r staff os byddai ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant a'u teuluoedd.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau bod gan yr holl blant gamau nesaf fel rhan o'u cofnod datblygu.

A2 Sicrhau bod rhywun ychwanegol ar gael bob amser yn ystod y Clwb Ar Ôl Ysgol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Sicrhau bod y cofnodion dyddiol yn dangos yn glir pwy sy'n gofalu am y plant ym mhob ystafell yn y lleoliad. | Newydd |
| | Nid oedd y gwiriadau cyn cyflogi yn cynnwys yr holl ddogfennaeth neu mae'n rhaid i'r Arweinwyr sicrhau bod yr holl dystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi ar waith cyn dechrau'r gyflogaeth. | Cyflawnwyd |
| | Cadw cofnodion - nid yw'r cofnod presenoldeb staff yn dangos pan fo staff yn gofalu'n uniongyrchol am blant nac amseroedd presenoldeb gwirioneddol y staff. Rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod y cofnodion presenoldeb yn dangos amseroedd presenoldeb gwirioneddol gan gynnwys pan na fyddant yn gofalu'n uniongyrchol am blant. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/04/2023